... ac Ati – Mehefin 2011

Boys in a Pasture gan Winslow Homer
(1874 – Museum of Fine Arts, Boston)

The Artist at his Easel gan Rembrandt
(1660 – *Le Musee du Louvre*, *Paris*)

"Oni wyddost, oni chlywaist? Duw tragwyddol yw'r Arglwydd a greodd gyrrau'r ddaear; ni ddiffygia ac ni flina, ac y mae ei ddeall yn anchwiliadwy. Y mae'n rhoi nerth i'r diffygiol, ac yn ychwanegu cryfder i'r di-rym. Y mae'r ifainc yn diffygio ac yn blino, a'r cryfion yn syrthio'n llipa; ond y mae'r rhai sy'n disgwyl wrth yr Arglwydd yn adennill eu nerth; y maent yn magu adenydd fel eryr, yn rhedeg heb flino, ac yn rhodio heb ddiffygio." (Eseia 40: 28-31).

Boys in a Pasture gan Winslow Homer (1836 - 1910): dau fachgen. Y tywydd yn braf a'r awyr yn las - a dim yn tarfu ar eu rhyddid a'u mwynhad. Credir fod Homer, yn hen wr yn peintio'r darlun hwn, ac mae'r arbenigwyr yn gytûn, mae mynegiant ydyw o'i hiraeth am ddyddiau melys ei lencyndod. Perthyn rhywbeth i *Boys in a Pasture* sydd yn estyn i berfedd enaid dyn. Mae'r darlun hwn yn creu ynom ymdeimlad o ryddid eang, o gyfle newydd:

Yn nheyrnas diniweidrwydd Mae rhywbeth gwych ar droed…
Mae dyn o hyd yn Eden, A'i fyd, di-ofid yw.
(Rhydwen Williams 1916 – 1997 yn *Hoff Gerddi Cymru* 2000. Gomer)

The Artist at his Easel gan Rembrandt (1606-1669). Fe beintiodd Rembrandt sawl hunanbortread yn ystod ei fywyd. Cawn hunanbortread o ddyn ifanc ar dân i ennill cymeradwyaeth a chydnabyddiaeth. Mewn hunanbortread arall cawn arlunydd llwyddiannus, aeddfed, yn ymwybodol o'i ddawn a'i allu, ac yn fodlon ar werthfawrogiad eraill ohono. Yn yr hunanbortread hwn gwelir hen wr, gwelir colli nerth, cyfoeth, dawn, teulu ac iechyd. Ond, syllwch yn ddwfn i lygaid yr arlunydd, ac fe welwch fod fflam ei ddawn, golau ei hyder, a chynhesrwydd ei ffydd yno o hyd. Mae rhywbeth ynom sydd yn mynd yn hyn heb fynd yn hen. Am wn i, un o sgil effeithiau ffydd yw hynny. O dan blisgyn henaint mae enaid ifanc, byw a bywiog. Mae Rembrandt yn ddigon parod i ddangos traul amser, ond o edrych i ddyfnder ei lygaid gwelwn rywbeth sydd y tu hwnt i afael amser.

Gyda threigl y blynyddoedd, *The Artist at his Easel* yw pawb ohonom yn allanol, ond, yn fewnol *Boys in a Pasture* ydym bob un! Wedi ystyried y ddau lun, beth am ail ddarllen y geiriau hynny o broffwydoliaeth Eseia?